

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2025

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

big pit
national
coal
museum
amgueddfa
lofaol
cymru

national
roman legion
museum
amgueddfa
lleng rufeinig
cymru

national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru

st fagans
national
museum
of history
amgueddfa
wern
cymru

Amgueddfa
Genedlaethol
y Glannau
STORI DIWYDIANT A
BLAENGAREDD CYMRU

National
Waterfront
Museum
WALES' STORY OF
INDUSTRY & INNOVATION



national
wool
museum
amgueddfa
wlan
cymru

Cyflwyniad

Rydyn ni'n ymroi'n llawn i gyflawni ein dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â'r Ddeddf Gydraddoldeb, a'r dyletswyddau hynny sy'n benodol i Gymru, ond rydym hefyd yn ymdrechu i fynd tu hwnt i gydymffurfiaeth.

Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb. Un o addewidion allweddol ein strategaeth gorfforaethol newydd, Amgueddfa Cymru 2030, yw 'Sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli' – ymhlith ein gweithlu, ein Hymddiriedolwyr, ac yn bobl sy'n gwneud penderfyniadau, ymwelwyr, seiri cynnwys, cyfranwyr a chynulleidfaoedd.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2025 yn atgyfnerthu'r addewid hwn ac yn disgrifio **yr hyn a wnawn** er mwyn cael gwared ar bob math o wahaniaethu, sicrhau cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn hollbwysig, mae hefyd yn disgrifio **sut** y byddwn yn gwneud hyn.

Mae angen dybryd i ni weithredu. Mae'r Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad (https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/ymchwil-ehangu-ymgysylltiad/?_ga=2.61782319.2074479887.1648455482-1792604206.1628710107) a gomisiynwyd gennym ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, yn dangos yn glir bod angen i ni sicrhau newid radical yn y ffordd rydym ni'n meddwl ac yn gweithredu, os ydym ni wir am adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym ni'n eu cynrychioli. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwn, gan ddisgrifio ein dyheadau a'r dulliau o'u cyflawni yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad (https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/cynllun-gweithredu-ehangu-ymgysylltiad/?_ga=2.251672201.1092747689.1647265677-1792604206.1628710107). Cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yn mynd law yn llaw, ac mae cynnwys y cynllun gweithredu wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein hamcanion strategol. Mae'r ddau gynllun yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i gael gwared ar y rhwystrau cyfredol sy'n atal grwpiau a ddiogelir a'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol rhag cael at y celfyddydau, treftadaeth, diwylliant a'n gweithlu. Er cysondeb, mae'r ddau gynllun yn cyd-redeg ar draws yr un cyfnod sef 2022-2025.

Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd a ddiogelir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, diogelir hawliau siaradwyr Gymraeg gan y Safonau Iaith Gymraeg, fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Rydym wedi ymrwmo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn ein Polisi Iaith Gymraeg, ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol (gweler

www.amgueddfa.cymru/ygymraeg). Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, yn 2022/23 byddwn yn sefydlu dulliau o weithio ar y cyd ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, gan gynnwys strwythurau llywodraethiant mewnol ac adrodd.

Roedd yr Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad yn canolbwyntio ar gymunedau penodol. Rydym yn cydnabod natur rhyng-gysylltiedig pawb sy'n wynebu gwahaniaethu neu anfantais, a'n bwriad yw cynnal gwaith pellach ar hyn yn canolbwyntio ar gymunedau sy'n wynebu anfantais. Mae ehangu a dwysau'r ymgysylltiad â'r cymunedau hyn ar draws Cymru yn amcan allweddol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Er enghraifft, rydym yn gweithio ar gyfres o ymrwymadau i'n cynulleidfaoedd/defnyddwyr, partneriaid a staff LHDTC+ fydd hefyd yn rhoi ystyriaeth i Gynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymrwymadau yn cael eu hymgorffori i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2022.

Mae cyd-destun polisi ehangach Cymru hefyd wedi llywio datblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan gynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd yn ymroi i gefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026 (<https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>) a blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru (<https://llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021>).

Byddwn yn adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcan/ion perthnasol yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru (Cymru Wrth-hiliol). Bydd y Cynllun hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2022/23 wrth i ni ymgorffori ein Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Rydym yn ymrwymo i roi'r camau gweithredu hyn ar waith ar draws ein sefydliad.

Yn olaf, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn llwyr gefnogi ein hymrwymiad i wireddu'r amcanion a ddisgrifir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros y tair blynedd nesaf. Byddwn hefyd yn sefydlu gweithgor i fesur ein cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Amcan 1:

Byddwn yn recriwtio ac yn cadw staff a gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru.

	Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
1	Adolygu a diwygio polisiau a phrosesau recriwtio AD i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn ein sefydliad.	<ul style="list-style-type: none">▪ Pennu'r newidiadau angenrheidiol i bolisi recriwtio, canllawiau, a dulliau hysbysebu, ymgeisio a dethol a rhoi'r newidiadau hynny ar waith.▪ Rhoi dulliau recriwtio traws-sector arloesol ar waith ar y cyd â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru.▪ Rhoi system recriwtio newydd ar waith sy'n cuddio manylion rhyw, oedran ac ati yn ystod y broses sifftio.
2	Ar y cyd â phartneriaid cymunedol, datblygu cynrychiolaeth yn y rhaglenni gwirfoddoli a lleoliad gwaith ymhellach.	<ul style="list-style-type: none">▪ Datblygu rolau newydd ar gyfer lleoliadau gwaith a gwirfoddoli â phartneriaid yn unol â Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli.▪ Sefydlu polisi a gweithdrefnau ar gyfer lleoliadau gwaith gan gynnwys cyfleoedd yn Gymraeg.
3	Adolygu a diwygio polisiau a phrosesau AD ar gyfer ymgysylltu â phobl a staff er mwyn sicrhau fod ein gweithleoedd yn llefydd diogel a chynhwysol.	<ul style="list-style-type: none">▪ Datblygu systemau cefnogi staff, sy'n cynnwys pwyslais ar ddatblygu gyrfa.▪ Cynnwys adran ar ficroymosodiadau mewn polisiau AD allweddol.▪ Cynnal adolygiad ehangach o bolisiau AD.
4	Sefydlu swyddi ymgysylltu arbenigol i arwain mentrau a sicrhau y cynrychiolir poblogaeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none">▪ Diffinio rolau priodol a'r sgiliau arbenigol angenrheidiol ar gyfer Rheoli Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.▪ Penodi swyddi sy'n canolbwyntio ar gymunedau ym maes Rhaglenni Cyhoeddus gan gynnwys Arddangosfeydd, Addysg a Digwyddiadau.

		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Penodi rôl i arwain ar Ddadwladychu o fewn adran Casgliadau ac Ymchwil. ▪ Archwilio'r cyfle i greu rôl Asiant er Newid ar lefel uwch ▪ Cynhyrchu disgrifiadau swydd, achosion busnes ac ati er mwyn recriwtio arweinwyr all gefnogi mentrau mewnol ac allanol.
5	Sicrhau y caiff hyfforddiant sy'n cefnogi datblygu arweinyddiaeth dosturiol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath yn cael ei sefydlu. Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd, y Cyngor ac Aelodau'r Uwch Dîm.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynnal rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr y dyfodol sy'n esbonio beth yw ystyr arwain mewn gwlad ddwyieithog, wrth-hiliol a gwrth-ablaidd. ▪ Datblygu hyfforddiant hyrwyddwyr, ar gyfer aelodau'r Bwrdd hefyd, i gefnogi meysydd penodol yn enwedig gwrth-hiliaeth, gwrth-ablaeth a dim goddefgarwch, a pharhau i ehangu'r meysydd hyn er mwyn datblygu pecyn cyflawn sy'n canolbwyntio ar y nodweddion a ddiogelir (gan gynnwys hawliau ieithyddol).
6	Darparu hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir a'r ddealltwriaeth briodol o ymarferion amrywiaeth da yn y gweithlu.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Treialu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth, gwrth-ablaeth, rhagfarn ddjarwybod, arwain mewn gwlad ddwyieithog, hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Cymraeg 2050. ▪ Datblygu a chynnal hyfforddiant ymgysylltu cymunedol arbenigol i'r rheini sy'n gweithio yn y maes, gan gynnwys canllawiau i'w cefnogi. ▪ Parhau i ddatblygu a chynnal rhaglenni, dehongliadau a gwasanaethau Cymraeg.
7	Ehangu llwybrau hygyrch i waith i gymunedau amrywiol Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu lleoliadau gwaith am dâl, prentisiaethau a llwybrau nad ydynt yn rhai traddodiadol i'r sector treftadaeth ymhellach. ▪ Sefydlu a datblygu cynlluniau mentora.
8	Asesu effaith ein polisiâu, gweithdrefnau a chamau gweithredu ar ein hamcan i	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefydlu gwaelodlin ar gyfer ein proffil iaith ac amrywiaeth a datblygu mesurau i fonitro cynnydd fydd yn ein galluogi i werthuso ac adrodd ar welliant a meincnodi yn allanol.

	gynrychioli cymunedau amrywiol Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Defnyddio technoleg i gasglu data iaith ac amrywiaeth gan staff e.e. cofnodi dewis/lefel iaith (Cymraeg/Saesneg/BSL) ac ieithoedd cymunedol eraill ar CIPHRnet. ▪ Datblygu ein defnydd o'n canllawiau a dulliau asesu ar gyfer Llunio Polisi a'r Gymraeg ymhellach ac ymchwilio i ddefnyddio'r model ar gyfer meysydd cydraddoldeb eraill.
--	---------------------------------------	---

Amcan 2:

Cefnogi ein holl staff a gwirfoddolwyr i gyflawni eu potensial a'u huchelgais proffesiynol a chael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal.

	Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
1	Datblygu systemau cefnogi staff, sy'n cynnwys pwyslais ar ddatblygu gyrfa a dulliau cefnogi sy'n cael gwared ar rwystrau i gynnydd.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff er mwyn cefnogi asesiadau sgiliau staff a chau bylchau sgiliau. ▪ Trwy ymgysylltu â staff o gymunedau amrywiol eu diwylliant, B/byddar ac anabl a'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, pennu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu a chael gwared arnynt. ▪ Mae rheolwyr llinell yn deall sut i ddefnyddio'r Broses Rheoli Perfformiad i fynd i'r afael ag anghenion datblygu ac adnabod talent ac olynwyr y dyfodol. ▪ Cyflwyno 'cynllun cyfaill' i gefnogi staff a sefydlu arfer da ar gyfer mentoriaid posibl. ▪ Datblygu rhwydweithiau ar gyfer grwpiau o staff sydd heb gynrychiolaeth ddigonol e.e. menywod a'r gymuned LHDTC+. ▪ Defnyddir cynlluniau addysg a chymwysterau pellach a noddir gan y Llywodraeth i uwchsgilio staff.

		<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gefnogi darpariaeth dysgu Cymraeg i staff ac ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys gwirfoddolwyr a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru.
2	Sicrhau fod strategaeth hyfforddi hygyrch ar gael sy'n diwallu anghenion staff B/byddar, gwirfoddolwyr a staff â dyletswyddau gofal.	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal cyrsiau BSL i ddechreuwyr ac Ymwybyddiaeth o Fyddardod i staff a gwirfoddolwyr er mwyn gallu croesawu ymwelwyr a staff gyda'r bwriad o archwilio llunio opsiynau digidol neu weledol y gellid cyfeirio atynt yn rhwydd. Trwy gynnig platfformau digidol ac wyneb yn wyneb, mae cyfleoedd hyfforddi'n hygyrch i bawb yn Gymraeg, Saesneg a BSL. Sicrhau bod pob darparwr hyfforddiant yn byw ein gwerthoedd. Datblygu polisi ar weithio hyblyg a hybrid i gefnogi ein staff.
3	Parhau i wreiddio cyfraniad Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru yn ein gwaith er mwyn cynrychioli pobl ifanc mwy yn ein gwaith datblygu polisi a phenderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none"> Yn unol â Chynllun Gweithredu Dwylo ar Dreftadaeth a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, parhau i greu cyfleoedd â thâl i Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Datblygu cynllun busnes i gefnogi Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru pan ddaw nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ben, fel y nodir yn y Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus.

Amcan 3:

Sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb gael mynediad at ein gwasanaethau a chymryd rhan gyda ni.

	Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
1	Sefydlu a gwreiddio safonau arfer gorau ar gyfer profiad defnyddwyr ac ymwelwyr.	<ul style="list-style-type: none"> Ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, comisiynu gwaith i greu safonau arfer gorau yn canolbwyntio ar lefelau mynediad ein hamgueddfeydd a safonau i staff er mwyn gwella profiad ymwelwyr/cynulleidfaoedd a rhoi'r argymhellion ar waith.

2	Parhau i gynnwys BSL yn ein rhaglenni newydd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Treialu BSL yn ein Rhaglenni Digwyddiadau newydd. ▪ Mae BSL yn ddewis iaith ar gyfer ein rhaglenni digwyddiadau newydd. ▪ Mabwysiadu BSL yn drydedd iaith.
3	Sicrhau fod adnoddau diwylliannol yn hygyrch	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Parhau i ddarparu mynediad corfforol a digidol i adnoddau diwylliannol hygyrch gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen a phrint bras. ▪ Parhau i adolygu pob cyhoeddiad newydd i sicrhau bod ein negeseuon yn gynhwysol ac yn cynnwys pob maes cydraddoldeb. ▪ Gweithio gyda chymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i gynllunio'r defnydd o ieithoedd cymunedol, ochr yn ochr â'r Gymraeg, BSL a Saesneg.
4	Monitro proffil demograffig ein hymwelwyr a mesur cynnydd ar draws y cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Defnyddio data'r archwiliad i bennu a thargeddu cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
5	Deunyddiau marchnata sy'n cydnabod ac yn dathlu arferion gwrth-hiliol a chynwysoldeb.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Lansio brand newydd Amgueddfa Cymru. ▪ Cydweithio â sefydliadau cymunedol i ddatblygu a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wasanaethau Amgueddfa Cymru. ▪ Datblygu dulliau cyfathrebu â sefydliadau cymunedol a rhwydweithiau lleol.

Amcan 4:

Sicrhau fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses gaffael ac yn cael ei reoli yn ystod y gweithredu.

Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
-----------------------	---------------------------------

1	Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a gwrth-ablaeth) yn cael eu sefydlu yn nulliau caffael gwasanaethau trydydd parti ble bo hynny'n briodol ac yn gymesur ar gyfer y contract dan sylw.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu set o egwyddorion caffael sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb a chynhwysiant, y Gymraeg ac ieithoedd eraill a dulliau gweithio gwrth-hiliol a gwrth-ablaidd. ▪ Hyfforddi a chefnogi staff i ddefnyddio'r dull a rhannu'r egwyddorion â'r sector. ▪ Rhoi dulliau caffael traws-sector arloesol ar waith ar y cyd â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru.
2	Sicrhau ein bod yn cynnwys canlyniadau cymdeithasol yn ein gweithdrefnau caffael lle bod modd sicrhau gwerth cymdeithasol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Creu cynllun gweithredu blynyddol sy'n cysylltu caffael yn y dyfodol â materion cymdeithasol, a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos gwerth cymdeithasol ychwanegol. ▪ Sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn agored i bawb, gan gynyddu gwerth cymdeithasol yr hyn sy'n cael ei gyflawni a darparu cyfleoedd i bawb.

Amcan 5:

Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw wrth gynrychioli a dathlu hanesion a chreadigrwydd cymunedau amrywiol Cymru.

	Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
1	Mabwysiadu Democratiaeth Ddiwylliannol trwy ddad-drefedigaethu casgliadau rhyngwladol a chenedlaethol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu strategaeth gasgliadau gyda gwell amrywiaeth a ffocws newydd ar gaffael a chomisiynu. ▪ Sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol ar bwyllgorau cynghori sy'n berthnasol i gaffaeliadau. ▪ Caffael gwaith trwy gomisiynu artistiaid sydd â phrofiad bywyd.
2	Cyd-gynhyrchu rhaglenni diwylliannol gan gynnwys digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda phobl amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu fframweithiau er mwyn sicrhau y caiff sefydliadau cymunedol eu contractio i arwain a chyd-gynhyrchu rhaglenni.

	F/fyddar ac anabl; pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol a chymunedau LHDTTC+.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Llunio cynllun tair blynedd ar gyfer arddangosiadau ac arddangosfeydd ar draws ein saith amgueddfa gan weithio gydag ymarferwyr creadigol â phrofiad bywyd fel y nodir yn y Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus. ▪ Cyd-gynhyrchu digwyddiadau cymunedol fel y nodir yn y Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus.
3	Datblygu adnoddau a rhaglenni cynhwysol a gwrth-hiliol newydd ar gyfer ysgolion yn rhan i Gwricwlwm newydd Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweithio gydag ymarferwyr creadigol â phrofiad bywyd i ddatblygu gweithgareddau ac adnoddau Cynefin i'w defnyddio mewn ysgolion sy'n helpu i esbonio treftadaeth a thirwedd ddiwylliannol amrywiol Cymru, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. (gweler y Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus am fanylion ein Rhaglen i Ysgolion).
4	Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, sefydlu dulliau o fonitro a goruchwyllo gwireddu'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad..	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu Tasglu gyda rhwydwaith o bartneriaid i fonitro cynnydd y Camau Gweithredu a chynghori ar ddatblygiadau polisi. • Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad pobl F/fyddar ac Anabl i arwain y gwaith o osod safonau ar gyfer ymwelwyr fel y nodir yn adroddiad Richie Turner Associates. • Parhau i gefnogi rhwydwaith Cyfuno a sefydlwyd trwy raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Amcan 6:

Sicrhau y bydd ein harweinwyr strategol yn atebol a threfniadau llywodraethiant yn eu lle, er mwyn sicrhau y cynhelir safonau uchel a chyson ar draws pob maes cyfrifoldeb.

Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
-----------------------	---------------------------------

1	Gwella cynrychiolaeth y Bwrdd a chynyddu llais yr ifanc.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogi datblygu cynllun recriwtio tair blynedd gyda Llywodraeth Cymru ac adolygu'r broses a chyflogau. ▪ Rhoi cynllun recriwtio ar waith gyda Llywodraeth Cymru.
2	Mae amcanion cydraddoldeb wrth wraidd ein cynlluniau strategol blynyddol a hirdymor.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Y Bwrdd a'r Uwch Dîm Gweithredol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb (ar sail yr argymhellion a Chynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac LHDTTC+ Llywodraeth Cymru.) ▪ Pennu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb. ▪ Cynnwys camau ym mhob polisi newydd a gwasanaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. ▪ Sefydlu Grŵp Cyngori Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ac adolygu trefniadau monitro a llywodraethiant mewnol. ▪ Adolygu camau gweithredu Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021 (disgwylir y canlyniadau erbyn 2023)
3	Mae'r Uwch Dimau yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ac yn alinio â Chynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Adolygu cynnydd y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ac adrodd i'r Bwrdd. ▪ Datblygu teclyn a matrices gwerthuso i fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu a llywio datblygiadau'r dyfodol. ▪ Cyfarfodydd ar y cyd gan y Bwrdd a Chyngor y Celfyddydau i adolygu cynnydd a thrafod camau gweithredu'r dyfodol. ▪ Cyhoeddi fideos/cyfathrebu ar y cyd i rannu'r cynnydd a chamau gweithredu i'w datblygu. ▪ Parhau i ddatblygu cynlluniau sy'n ymateb i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Cydraddoldeb LHDTTC+ Llywodraeth Cymru.

4	Mae'r Uwch Dimau yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Monitro cynnydd amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb drwy adrodd i Dîm Arwain yr Amgueddfa yn chwarterol.
5	Sefydlu rhwydweithiau priodol i staff gael ystyried datblygiad polisi ar gyfer materion cydraddoldeb penodol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefydlu ymgysylltiad â staff ynghylch materion cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi a chefnogi cynhwysiant. ▪ Adolygu ac addasu grwpiau/rhwydweithiau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas i'w diben.
6	Sicrhau bod ein cynnydd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn dryloyw.	<p>Sicrhau bod gwybodaeth ar ein gwefan ar y pynciau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad • Cynllun Cydraddoldeb Strategol • Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau • Ein Proses Asesu Effaith Cydraddoldeb • Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol • Gwybodaeth am ein sefydliadau partner a sut yr ydym yn cydweithio • Mesuriadau gweithredu cadarnhaol wrth gomisiynu gwaith • Polisi Iaith Gymraeg, cydymffurfiaeth ac adrodd.

Amcan 7:

Parhau i leihau'r bwllch cyflog rhwng menywod a dynion.

	Cam Gweithredu	Cerrig milltir allweddol
1	Parhau i gasglu gwybodaeth am y gweithlu yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Adrodd ar y Bwlch	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gwaith meincnodi priodol yn flynyddol.

	Cyflog rhwng y Rhywiau) a chymharu â data meincnodi priodol.	
2	Cynhyrchu cynllun gweithredu er mwyn gweithio tuag at gau unrhyw fwch cyflog rhwng y rhywiau trwy adolygu ein strategaethau recriwtio a chadw.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Monitro cynnydd y gwaith ar gau unrhyw fylchau cyflog a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu.
3	Parhau i sefydlu proses Asesu Effaith Cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein gwaith.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Hyfforddiant i bob rheolwr sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi ynghylch y broses a sicrhau fod pob gweithgarwch a gynllunnir yn ystyried anghenion y rheini sydd â nodwedd a ddiogelir a/neu'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.